Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

15 Medi – 9 Tachwedd 2018



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 7536**
E-bost: **Francesca.Howorth@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

15 Medi – 9 Tachwedd 2018

Awduron: Francesca Howorth, Katy Orford, Elfyn Henderson, Chloe Corbyn, Lorna Scurlock, Chris Wiseall a Siân Davies

**Trosolwg o'r papur:**
Bydd Brexit yn dod â newidiadau arwyddocaol ym maes polisi'r amgylchedd. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r adroddiad monitro hwn i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae'n rhoi diweddariad ar ddatblygiadau Brexit diweddar sy'n bwysig o ran polisi'r amgylchedd yng Nghymru.

Y Cynulliad a BREXIT

## Contents

**1. Rhagymadrodd ........ 1**

**2. Trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE ........ 2**

**3. Gweithredu arall gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ........ 4**

**4. Gweithredu gan Lywodraeth Cymru ........ 8**

**5. Gweithredu gan Lywodraeth yr Alban ........ 10**

**6. Gweithredu gan y Pwyllgor CCERA ........ 11**

**7. Gweithredu arall gan y Cynulliad Cenedlaethol ........ 13**

**8. Gweithredu gan ddeddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig ........ 15**

**9. Ffynonellau allweddol eraill ........ 19**



# 1. Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau diweddar ynglŷn â Brexit ym maes polisi'r amgylchedd. Mae wedi'i baratoi gan y Gwasanaeth Ymchwil i **Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** y Cynulliad ac mae'n ymdrin â'r cyfnod o 15 Medi i 9 Tachwedd 2018. Mae'r **adroddiad blaenorol** yn ymdrin â 13 Gorffennaf i 14 Medi.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (UE) a datblygiadau yn y Deyrnas Unedig sy'n effeithio ar faes polisi'r amgylchedd. Mae'n canolbwyntio ar weithgareddau'r canlynol:

- sefydliadau'r UE;
- y llywodraethau a'r deddfwrfeydd yn y Deyrnas Unedig; ac
- mae'n rhoi ffynonellau gwybodaeth allweddol eraill.

I gael trosolwg llawn o'r trafodaethau ynglŷn ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE, gweler **Adroddiadau Monitro Brexit a Diweddariadau Brexit** cyffredinol y Gwasanaeth Ymchwil, sy'n cael eu paratoi i **Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth hefyd ar dudalennau gwe y Cynulliad **Brexit a Chymru.**

## 2. Trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE

Ar 14 Tachwedd 2018, wrth i'r adroddiad hwn gael ei anfon i'w argraffu, daeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Comisiwn Ewropeaidd i gytundeb ar **Gytundeb Ymadael drafft** er mwyn i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Wedyn, **cyhoeddodd y Prif Weinidog, Theresa May**, fod y Cabinet wedi cytuno ar ddrafft a'r Datganiad Gwleidyddol Amlinellol perthynol. **Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad arall** i Dŷ'r Cyffredin ar 15 Tachwedd pan ddywedodd:

> ...yesterday we agreed the provisional terms of our exit from the European Union, set out in the Draft Withdrawal Agreement. We also agreed the broad terms of our future relationship, in an Outline Political Declaration. President Juncker has now written to the President of the European Council to recommend that 'decisive progress has been made in the negotiations'...and a special European Council will be called for Sunday 25th November. This puts us close to a Brexit deal.

Bydd manylion yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Ymadael drafft ynglŷn â pholisi'r amgylchedd yn cael eu cynnwys yn rhifyn nesaf yr adroddiad hwn. Mae'r diweddariadau yn yr adroddiad hwn o hyn ymlaen yn ymdrin â'r cyfnod 15 Medi i 9 Tachwedd 2018. Cafodd y datganiadau y cyfeirir atynt uchod eu dilyn gan **ymddiswyddiadau nifer o Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig**: roedd unrhyw gyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at deitlau'r Gweinidogion yn gywir ar 9 Tachwedd oni nodir yn wahanol.

Ar **17** a **18** Hydref, cynhaliwyd uwchgynhadledd Cyngor yr UE i drafod y cynnydd diweddaraf mewn perthynas â Brexit.

Ar 18 Hydref, cafwyd **datganiad** gan lywydd y Cyngor Ewropeaidd, Donald Tusk, yn nodi nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud i gwblhau cytundeb, ac y byddai'n barod i gynnull cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd i drafod Brexit os a phan fyddai negodwr yr UE yn dweud bod digon o gynnydd wedi'i wneud.

Ar 22 Hydref, wedi ailddatgan bod 95 y cant o'r cytundeb a'r protocolau ynghylch ymadael bellach wedi'u setlo, rhoddodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, Theresa May, **ddiweddariad ar yr anghytundeb allweddol** – y cynllun wrth gefn ar gyfer Iwerddon. Dywedodd:



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

> [we must make the commitment to] create an option to extend the implementation period as an alternative to the backstop. I have not committed to extending the implementation period. I do not want to extend the implementation period, and I do not believe that extending it will be necessary.
>
> What I am saying is that if, at the end of 2020, our future relationship is not quite ready, the proposal is that the UK would be able to make a sovereign choice between the UK-wide customs backstop or a short extension of the implementation period.

O ran masnach, dywedodd:

> [it is for the Government to] deliver the commitments we have made to ensure full continued access for Northern Ireland's businesses to the whole of the UK internal market. Northern Ireland's businesses rely heavily on trade with their largest market, Great Britain, and we must protect this in any scenario.

Edrychodd datganiad Donald Tusk yn sgil uwchgynhadledd arweinwyr yr UE hefyd ar y posibilrwydd hwn o estyn y cyfnod pontio. Dywedodd:

> [...] if the UK decided that an extension of the transition period would be helpful to reach a deal, I am sure that the leaders would be ready to consider it positively.

Ar 22 Hydref, cyhoeddodd Grŵp Cynghori Cymru ar Ewrop **gofnodion ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi**. Byddai estyniad byr i'r cyfnod gweithredu yn cyd-fynd â galwad y Grŵp ar i'r Deyrnas Unedig ofyn i'r UE gynnig mwy o hyblygrwydd o ran amseru i sicrhau cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE sy'n fanteisiol i'r ddwy ochr. Ategwyd hyn gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, mewn **datganiad yr un diwrnod.**

Cafwyd sïon y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei alw o Gyngor yr UE ym mis Tachwedd i bennu manylion terfynol y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol perthynol, sydd heb rym cyfreithiol, ynghylch perthynas y Deyrnas Unedig â'r UE yn y dyfodol. **Mewn llythyr dyddiedig 24 Hydref** (PDF, 224KB), nododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Dominic Raab, ei fod yn fodlon:

> to give evidence to the [House of Commons, Exiting the EU] Committee when a deal [on the Withdrawal Agreement] is finalised, and currently expect 21 November to be suitable.

I weld amcangyfrif o amserlen Brexit dros y misoedd nesaf, gweler **blogiad** y Gwasanaeth Ymchwil.

# 3. Gweithredu arall gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 4 Hydref, lansiodd Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Defra) **ymgynghoriad ynghylch sefydlu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol (GI) i'r Deyrnas Unedig ar ôl ymadael.** Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 1 Tachwedd. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r cynigion ar gyfer cynlluniau GIs newydd i'r Deyrnas Unedig, a fydd yn dod â rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar GIs i mewn i gyfraith y Deyrnas Unedig drwy'r Ddeddf i Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn ymdrin â'r pedwar cynllun GIs ar wahân ar gyfer: cynhyrchion bwyd-amaeth, gwinoedd, gwinoedd aromatig a gwirodydd.

Trwy gydol mis Medi a mis Hydref bu sawl un o **adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyhoeddi dogfennau cyfarwyddyd ynghylch Brexit heb gytundeb.** Mae'r rhai sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a bwyd yn cynnwys:

- **Cynhyrchu a labelu bwyd os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Mewnforio ac allforio planhigion a chynhyrchion planhigion os nad oes cytundeb Brexit**;
- **Cytundebau masnach rydd sydd eisoes yn bodoli os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Marciau iechyd ar gynhyrchion cig, pysgod a chynhyrchion llaeth os nad oes cytundeb Brexit**; ac
- **Allforio bwyd a chynhyrchion bwyd anifeiliaid GM os nad oes cytundeb Brexit.**



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

Ar 16 Hydref, cyhoeddodd Defra **adolygiad** i ddarparu 'cyllid teg' i ffermwyr rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ôl 2022. Bydd panel cynghori annibynnol yn ystyried pa ffactorau a ddylai bennu dosbarthiad cyllid amaethyddol. O dan **gylch gorchwyl** yr adolygiad, bydd y panel yn ystyried ystod eang o ffactorau sy'n adlewyrchu amgylchiadau amgylcheddol, amaethyddol a sosio-economaidd pob un o bedair rhan y Deyrnas Unedig. Disgwylir i'r adolygiad bara chwe mis a dod i ben cyn Adolygiad Gwariant 2019 gan geisio bwydo penderfyniadau ar gyllid yn y dyfodol. Bydd yn cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Bew o Donegore a fydd yn cael cymorth panel o gynrychiolwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Cadarnhaodd y cyhoeddiad na fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cymhwyso fformiwla Barnett at newidiadau mewn cyllid ar ôl y Senedd hon.

Mae Defra wrthi'n recriwtio rhagor o swyddogion i gefnogi ei waith ar gyflawni Brexit a'r Cynllun Amgylcheddol 25 mlynedd. Yn ddiweddar, mae wedi hysbysebu 52 o rolau llunio polisi ar draws ei safleoedd. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru o'r cynnydd canlyniadol o £20.7m sy'n gysylltiedig â Brexit ac a ddyrannwyd ar gyfer 2018-19 a 2019-2020 ac mae Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, **wedi sicrhau cyllid** i 144 o swyddi Brexit.

## Ynni a Newid Hinsawdd

Mae sawl un o adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch Brexit heb gytundeb. Mae'r rhai sy'n ymwneud ag ynni a newid yn yr hinsawdd yn cynnwys:

- **Bodloni gofynion newid yn yr hinsawdd os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Rhedeg busnes olew neu nwy os nad oes cytundeb Brexit**;
- **Masnachu nwy gyda'r UE os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Masnachu trydan os nad oes cytundeb Brexit**; a
- **Chynhyrchu trydan carbon isel os nad oes cytundeb Brexit.**

Mae'r hysbysiad ynghylch **bodloni gofynion newid yn yr hinsawdd** os na cheir cytundeb yn ailadrodd ymrwymiad y Deyrnas Unedig i ymdrechion domestig a rhyngwladol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn nodi y byddai'r Deyrnas Unedig yn cael ei hatal mewn sefyllfa o'r fath rhag cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r UE (UE ETS) ac y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dileu'r gofynion ynglŷn ag ildio lwfansau allyriadau. Serch hynny, mae'n dweud hefyd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu parhau â threfniadau Monitro, Adrodd a Gwirio er mwyn cadw cymaint o barhad â phosib.

Mae **nodyn technegol** (PDF, 256KB), a gyhoeddwyd ochr yn ochr â **Chyllideb Hydref 2018 y Deyrnas Unedig,** yn amlinellu cynlluniau i ddisodli UE ETS â threth garbon i'r Deyrnas Unedig os ceir Brexit heb gytundeb. Byddai'n dechrau ar £16/ $tCO_2$ (tunelli o $CO_2$) – sef yr un fath yn fras â phris cyfredol UE ETS – gan barhau â lefel prisiau carbon ar draws economi'r Deyrnas Unedig a fyddai i bob pwrpas ar lefelau tebyg.

## Pysgodfeydd

Ar 25 Hydref, cyhoeddodd Defra **grynodeb o'r ymatebion** i'r **Papur gwyn pysgodfeydd: sustainable fisheries for future generations.**

Ar 25 Hydref, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y **Bil Pysgodfeydd** yn Senedd y Deyrnas Unedig. I gyd-fynd â'r Bil ceir **nodiadau esboniadol** a **memorandwm pwerau dirprwyedig**. Mae'n ategu'r broses o symud i ffwrdd o Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE tuag at sefyllfa lle bydd y Deyrnas Unedig yn rheoli ei dyfroedd ei hun fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol.

Mae pysgodfeydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac mae'r Bil yn cynnwys nifer o bwerau a fydd yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae hefyd yn cynnwys rhai pwerau sydd i'w harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â materion datganoledig – ond gyda chydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig, er mwyn ategu dull cyson o reoli pysgodfeydd ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r Bil yn ymestyn pwerau'r Sefydliad Rheoli Morol i wneud is-ddeddfau i reoli effaith pysgota ar yr amgylchedd morol ac mae'n rhoi pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban.

Mae'r Bil hefyd yn darparu nifer o bwerau a fydd yn galluogi Gweinidogion y Deyrnas Unedig, a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn rhai achosion, i gyflwyno is-ddeddfwriaeth.





Rhaid i Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) gael ei fabwysiadu gan y pedair Gweinyddiaeth Pysgodfeydd yn y Deyrnas Unedig, gan nodi sut y bydd eu polisïau'n cyflawni neu'n cyfrannu at gyflawni amcanion allweddol ar gyfer pysgodfeydd y Deyrnas Unedig. Rhaid i'r Datganiad hwn gael ei baratoi gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd ar y cyd, a rhaid paratoi'r Datganiad cyntaf a'i gyhoeddi cyn 1 Ionawr 2021. Rhaid gosod y Datganiad ar ffurf drafft gerbron pob un o'r deddfwrfeydd at ddibenion craffu ac ymgynghori priodol. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd baratoi datganiad pysgodfeydd yr Ysgrifennydd Gwladol (SSFS).

## Gwarchod natur

Adroddwyd yn **Adroddiad ENDS** fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove, wedi dweud wrth ddigwyddiad ymylol yn ystod cynhadledd y Blaid Geidwadol ar 30 Medi y dylai targedau cyfreithiol-rwymol gael eu nodi ym Mil yr Amgylchedd (a **gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf gan Theresa May**) ochr yn ochr â thargedau anghyfrwymol, a'r rheiny'n 'gallu cael eu newid wrth i wyddoniaeth ddatblygu ac wrth i'n dealltwriaeth o beth sy'n bosibl dyfu'.

# 4. Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 25 Medi, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates, ddatganiad ysgrifenedig ar **Lansio Porthol Brexit Busnes Cymru**, sef gwefan sydd wedi'i chynllunio'n unswydd i helpu busnesau i baratoi at y newidiadau a'r heriau sy'n codi o Brexit. Dywedodd fod gan y porthol ddau amcan:

> Yn gyntaf, darparu gwybodaeth ddiweddar a chyngor ar amrywiol bynciau busnes perthnasol (gan gynnwys masnachu yn rhyngwladol a chynllunio y gweithlu) wrth inni ddechrau ar y cyfnod o chwe mis sy'n arwain at weld y DU yn ymadael â'r UE.
>
> Yn ail, darparu dull diagnostig fydd yn gwella ein cymorth presennol i fusnesau, yn codi ymwybyddiaeth o gamau paratoi priodol a ffynonellau cymorth ychwanegol. Bydd hyn yn darparu gwiriad iechyd i'r busnesau hynny sydd eisoes wedi paratoi neu nodi'r prif gamau i'r rhai hynny sydd o bosibl angen mwy o gymorth.

Ar 4 Hydref, gosodwyd **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth yn y Cynulliad**.

Ar 30 Hydref, caeodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru **ar y Papur Gwyrdd, Brexit a'n Tir**, ar ôl cael dros 1200 o ymatebion.

Hefyd ar 30 Hydref, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford, **ddatganiad** mewn ymateb i Gyllideb Hydref 2018 y Deyrnas Unedig. O ran Brexit dywedodd hyn:

> Mae Brexit yn parhau i bwyso ar y rhagolygon twf ar gyfer Cymru a'r DU yn gyfan. Siaradodd y Canghellor ddoe am addewid o fwy o gyllid yn y dyfodol os sicrheir cytundeb manteisiol yn dilyn y negodiadau Brexit. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y negodiadau rhwng y DU a'r UE ac mae'r bygythiad na cheir cytundeb yn ymddangos yn fwy tebygol. Byddai'r canlyniad hwn yn drychinebus ac yn amharu ac yn cael effaith negyddol anghymesur ar Gymru.

Ar 8 Tachwedd, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths **ddiweddariad** ar Raglen Datblygu Allforio Hybu Cig Cymru. Dywedodd:



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

> Ers y dechrau, mae'r rhaglen wedi galluogi HCC i gefnogi'r diwydiant i sefydlu rhwydwaith o gynrychiolwyr mewn marchnadoedd allweddol, gan gynnwys Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Sgandinafia a Benelux, gan ddarparu gweithgareddau allweddol gan gynnwys cymorth masnach, marchnata yn canolbwyntio ar y cwsmer, gweithgareddau wrth werthu ac o fewn siopau, marchnata digidol a mewnfuddsoddi. Mae'r rhaglen yn llwyddiannus wrth helpu i gynnal y prif farchnadoedd yn Ewrop, yn ogystal â datblygu mynediad i'r farchnad ymhellach i ffwrdd, ac mae eisoes wedi bod yn bwysig yn y broses o sicrhau busnes newydd yng Ngwlad Belg, Portiwgal, Singapôr a Qatar.

## Pysgodfeydd

Ar 26 Medi, cyhoeddodd Lesley Griffiths **ragor o gymorth drwy gronfa drawsnewid yr UE ar gyfer pysgodfeydd, yr amgylchedd a'r diwydiant bwyd i baratoi ar gyfer Brexit**. Mae hyn yn cynnwys dros £1.2 miliwn i helpu ymchwil i reoli pysgodfeydd yn y dyfodol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> Gwyddwn y bydd ymadael â'r UE yn arbennig o anodd i'r diwydiant pysgota a'r diwydiant bwyd. Bydd y cyllid a gân' nhw drwy'r gronfa hon yn helpu i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd a ddaw i'r amlwg, eu bod yn parhau i fedru cystadlu wrth i farchnadoedd newid, a'u bod yn ffynnu mewn byd ar ôl Brexit.

## Fframweithiau'r Deyrnas Unedig

Ar 25 Hydref, cynhaliwyd pumed gynhadledd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn sgil y cyfarfod, cyhoeddwyd **datganiad ar y cyd** ynghylch y trefniadau rhynglywodraethol cyfredol gan gadarnhau unwaith yn rhagor mai barn unfrydol y pwyllgorau oedd nad yw Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yn addas at ei ddiben. Er hynny, wnaeth Robin Walker AS ddim cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i greu Cyngor Gweinidogion, **gan ddweud** bod strwythurau gwaith ychwanegol wedi cael eu creu:

> I think we've also recognised [...] that there needs to be additional machinery to support this process, and the ministerial forum on EU negotiations [...] has been set up with the specific aim of reporting back to JMC(EN) on upcoming negotiations on the future relationship.

# 5. Gweithredu gan Lywodraeth yr Alban

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 26 Medi, rhybuddiodd Ysgrifennydd Cysylltiadau Cyfansoddiadol Llywodraeth yr Alban, Michael Russell, am y **posibilrwydd y byddai Brexit yn effeithio ar ddiogelwch bwyd** gan ddweud 'all powers in devolved areas like food law must transfer directly to the Scottish Parliament.'

Ar 26 Medi, gwnaeth Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros yr Economi Wledig, Fergus Ewing, **ddatganiad i Senedd yr Alban ynghylch y Polisi Amaethyddol Cyffredin.** Dywedodd:

> there is no doubt that the year ahead will be difficult, which is why the Scottish Government has made it clear that no matter what else happens, farm and rural businesses will receive their current payment entitlements largely as they currently are, and not just in 2019 but in every year until 2022.

Ar 15 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban **'Scotland's place in Europe: our way forward'** sy'n nodi safbwynt Llywodraeth yr Alban ynglŷn â chynnig Chequers, yn manylu ar ddadansoddiad annibynnol diweddar o gynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i barhau'n aelod o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau Ewropeaidd.

Ar 6 Tachwedd, rhybuddiodd Gweinidog Materion Gwledig Llywodraeth yr Alban, Mairi Gougeon, **fod yr Alban yn mentro colli ei chyfran o 13.5% o farchnad yr UE yn y diwydiant tatws hadyd** mewn senario lle na cheid cytundeb Brexit.

Yn ystod Hydref a Thachwedd, ysgrifennodd Fergus Ewing sawl gwaith **at Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y Deyrnas Unedig dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig,** Michael Gove, yn nodi pryderon ynghylch Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig ac yn cynnig nifer o welliannau.





# 6. Gweithredu gan y Pwyllgor CCERA

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 10 Hydref, trafododd y Pwyllgor CCERA ei ddull ar gyfer trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynglŷn â Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ysgrifennodd y Pwyllgor at **Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, ar 18 Hydref** ar sawl mater gan gynnwys pryderon ynghylch y pwerau dirprwyedig eang yn y Bil. Yn ei **hymateb**, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> I would like to re-assure the Committee the powers being taken now are broad enabling powers which do not constrain or predetermine future policy decisions.... I acknowledge the Committee's concern regarding the significant regulation-making powers provided in the Bill to Welsh Ministers. I am committed to consulting stakeholders properly should these powers be used.

Ar 24 Hydref, cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn dystiolaeth ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd, Brexit a'n Tir**. Ffocws y sesiwn oedd y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig a'r ymagwedd wedi'i seilio ar ganlyniadau. Clywodd y Pwyllgor gan academyddion, undebau ffermio, cyrff amgylcheddol anllywodraethol a chynrychiolwyr o gynlluniau sydd wedi'u seilio ar ganlyniadau.

Ar 8 Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn i graffu ar y gyllideb ddrafft gyda Lesley Griffiths.** Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ynghylch dyraniadau'r gyllideb ynglŷn ag agweddau amaethyddol ei phortffolio megis Ymchwil a Gwerthuso, Gwasanaethau Cyngor Technegol a chynlluniau peilot ar gyfer rhaglenni amaethyddol newydd.

## Lles anifeiliaid

**Wrth graffu ar y gyllideb ddrafft,** gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch dyraniadau'r gyllideb ynglŷn â TB mewn gwartheg. Roedd hyn yn cynnwys y potensial ar gyfer rhaglen newydd i frechu moch daear o gofio bod brechlyn ar gael. Dywedodd wrth y Pwyllgor na fyddai'n cyflwyno rhaglen frechu newydd ond ei bod wedi trefnu bod cyllid ar gael at gynlluniau peilot. Trafodwyd y system iawndal i ffermwyr hefyd.

## Pysgodfeydd

Ar 16 Hydref, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar ymchwiliad ar **Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru.** Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y trafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch polisi pysgodfeydd yn y dyfodol.

**Wrth graffu ar y gyllideb ddrafft,** gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch dyraniadau'r gyllideb ynglŷn â'r agwedd ar ei phortffolio sy'n ymdrin â'r môr a physgodfeydd, gan gynnwys sut mae blaenoriaethau'r gwaith yn cael eu pennu yng Nghangen Gweithredu Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd pryd y gallai'r Cynulliad ddisgwyl gweld Memorandwm Caniatâd Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet i egluro hyn.

## Gwarchod natur

**Wrth graffu ar y gyllideb ddrafft,** gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch y corff llywodraethu amgylcheddol i lenwi'r 'bwlch llywodraethu' amgylcheddol ar ôl Brexit. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn rhy gynnar i fanylu ar y costau; ond ei bod yn bwriadu defnyddio'r model ar gyfer sefydlu Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran cymhariaeth. Dywedodd y byddai ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Tachwedd. Pan ofynnodd y Pwyllgor, wnaeth hi ddim ymrwymo i fodel Cymru'n unig nac i fodel ar sail y Deyrnas Unedig.





# 7. Gweithredu arall gan y Cynulliad Cenedlaethol

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 3 Hydref, atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, **nifer o gwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ynghylch Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig.**

Ar 8 Hydref, cynhaliodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **sesiwn dystiolaeth gyda'r sector bwyd** ynghylch paratoi ar gyfer Brexit.

Ar 5 Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLA) **sesiwn graffu gyda Lesley Griffiths, ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig.** Mae Cymal 26 o'r Bil yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Amgylcheddol mewn perthynas â Chytundeb y WTO ar Amaethyddiaeth. Byddai'r rhain yn caniatáu i Lywodraeth y Deyrnas Unedig osod nenfydau ariannol i'r gweinyddiaethau datganoledig ynglŷn â chymorth amaethyddol y bernir ei fod yn ystumio masnach. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y WTO, a nodir yng Nghymal 26, yn 'llinell goch' ac na allai argymell y dylai'r Cynulliad roi cydsyniad i'r Bil pe na bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn newid ei safbwynt o ran parhau i drin hyn fel mater sydd wedi'i gadw'n ôl yn llwyr. Mae Llywodraeth Cymru'n anghytuno â Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran i ba raddau y mae Cymal 26 yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl, a phwysleisiodd y berthynas gref rhwng pwerau'r WTO a chyfrifoldebau datganoledig ar gymorth amaethyddol **mewn datganiad ysgrifenedig ar 12 Medi.**

## Morol

Ar 3 Hydref, holwyd Lesley Griffiths, **yn y Cyfarfod Llawn** am lefelau amddiffyn i safleoedd morol Ewropeaidd Cymru yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> Gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Ymadael â'r UE, rydym yn gweithio i sicrhau bod yr un amddiffyniadau ar waith ac y bydd y gyfraith yn parhau i fod yn weithredol wedi inni ymadael. Mae hyn yn cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n sail i safleoedd morol Ewropeaidd Cymru.

## Fframweithiau'r Deyrnas Unedig

Ar 5 Tachwedd, yn ystod **sesiwn graffu'r Pwyllgor CLA gyda Lesley Griffiths**, ailadroddodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r mwyafrif helaeth o fframweithiau'r Deyrnas Unedig ar gyfer cymorth amaethyddol yn digwydd drwy gyfryngau heblaw deddfwriaeth, ac eithrio rheolau'r WTO, lle mae angen fframwaith deddfwriaethol. Dywedodd y câi adroddiad arall ar gynnydd ynglŷn â fframweithiau'r Deyrnas Unedig ei gyhoeddi ar ôl ei chyfarfod pedair ochrog nesaf ym mis Tachwedd.

## Offerynnau Statudol

Ar 29 Hydref, cytunodd y Pwyllgor CLA **ar brotocol gyda Llywodraeth Cymru** (PDF, 104KB) ynghylch craffu ar reoliadau a fydd yn deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Protocol yn nodi cyd-ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor CLA a Llywodraeth Cymru ar y trefniadau gweinyddol at graffu ar reoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru.

Mae rhestr o Offerynnau Statudol a osodwyd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ac sy'n gofyn cydsyniad y Cynulliad (Memoranda Cydsyniad i Offerynnau Statudol – SICMs), **ar gael ar dudalennau gwe'r Pwyllgor CLA**. Mae nifer o'r Memoranda hyn yn trawsnewid cyfraith yr UE, ac mae eraill yn cynnwys cynigion i newid y gyfraith o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE (mae'r rhain yn cynnwys yr ymadrodd 'Ymadael â'r UE' yn y teitl). Hyd yn hyn, mae'r Memoranda a ganlyn wedi'u gosod mewn perthynas â'r amgylchedd:

- **Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Amrywiol (Diwygio) 2018;**
- **Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) 2018;**
- **Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017; a**
- **Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol sy'n gysylltiedig â Harbyrau, Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2017.**





# 8. Gweithredu gan ddeddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig

## Ansawdd aer

Ar 31 Hydref, yn ystod dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar lygredd aer yn etholaeth Broxbourne, dywedodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Dr Thérèse Coffey, y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyhoeddi:

> a clean air strategy before the end of the year, which will set goals working towards World Health Organisation recommendations on particulate matter emissions. That goes further than what the EU requires.

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 31 Hydref, cynhaliodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin **sesiwn graffu ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig** gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove, a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, George Eustice. Ymatebodd Michael Gove i feirniadaeth y byddai'r Bil yn osgoi'r Senedd gan drosglwyddo pwerau o'r UE i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dywedodd:

> people make comparisons with a perfect model of parliamentary accountability, as they might see it, but decline to note that for many years, while we have been in the European Union, there have been aspects not just of agriculture but of huge swathes of policy area where Ministers, and indeed Parliament, have had to meekly accept what was decided elsewhere.

Trafodwyd y posibilrwydd o rwymo llywodraethau'r dyfodol drwy'r Bil er mwyn gweld yr effeithiau amgylcheddol hirdymor ac i ddiogelu ffermwyr yn y dyfodol.

Rhoddodd Michael Gove sicrwydd na fyddai'r Deyrnas Unedig yn gwneud unrhyw gytundebau masnach a fyddai'n caniatáu i gynnyrch ddod i'r wlad yn unol â safonau a fyddai'n is na'r hyn a ganiateid yn y Deyrnas Unedig, sef ymrwymiad y cytunwyd arno gan yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol a'r Cabinet. Er hynny, dadleuodd George Eustice y byddai unrhyw welliant i'r Bil i geisio sicrhau bod unrhyw safonau cynhyrchu bwyd a osodid gartref yr un mor gymwys i fewnforion, yn syrthio y tu allan i rychwant y Bil Amaethyddiaeth gan ei fod yn well gosod gwelliant o'r fath yng nghyd-destun y Bil Masnach.

Cododd Alan Brown AS y cwestiwn ei bod yn bosibl bod ar Gymal 26, sy'n ymwneud â rheolau WTO, angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol gan Lywodraeth yr Alban, yn ôl cyngor cyfreithiol a gafodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban. Y cyngor cyfreithiol oedd y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn deddfu mewn cymhwysedd datganoledig, ac felly o bosibl yn tanseilio'r cymorth a allai gael ei roi i ffermwyr yr Alban. Ymatebodd Michael Gove:

> we are looking at the amendments. I think there may be a difference of understanding on some of these points, but we want to achieve a shared understanding and a shared way forward.

Ar 17 Hydref, cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi **adroddiad** ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig. Pryder cyffredinol y Pwyllgor yw nifer y pwerau dirprwyedig a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion, gan gredu bod y rhain yn osgoi'r Senedd a'r deddfwrfeydd datganoledig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Er bod 17 o'r 26 o bwerau dirprwyedig yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol (y bernir ei bod yn gyfran uchel yn ôl safonau'r mwyafrif o Filiau), mae'r adroddiad yn nodi nad yw'r weithdrefn gadarnhaol yn cynnig dim byd tebyg i'r gwaith craffu a wneir ar Fil. Mae gan y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig bryderon nad yw Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y Deyrnas Unedig (Defra) wedi darparu unrhyw offerynnau statudol drafft.

Ar 18 Medi ymatebodd **Llywodraeth y Deyrnas Unedig** i Adroddiad Pwyllgor Materion Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin **'The future for food, farming and the environment'.** Cadarnhaodd Defra y byddai'n lleihau:

> Direct Payments in 2021 and for them to be completely phased out by the end of the transition, with the last payments being made for the 2027 scheme year.

Ar 20 Medi, cyhoeddodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi **'Brexit: the customs challenge'** (PDF, 780KB) sy'n archwilio'r gwahanol opsiynau ynglŷn â dyfodol yr UE ac yn amlygu heriau a chymhlethdodau'r cadwyni cyflenwi cyfredol ar gyfer ystod eang o ddiwydiannau gan gynnwys bwyd.

Ar 10 Hydref, **cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin ei Ail Ddarlleniad o'r Bil Amaethyddiaeth** lle atebodd Michael Gove gwestiynau ASau. O ran y pwerau datganoledig yn y Bil, dywedodd:



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

> some people have suggested that the Bill constitutes a power grab from our devolved Administrations—nothing could be further from the truth. The Bill will empower the Welsh Assembly, the Northern Ireland Government and the Scottish Government to do what they believe is right for our farmers, and what is right for our farmers is to move away from a system that has constrained their energy, undermined their enterprise, held back innovation in food production and inadequately rewarded them not only for the food that they provide, but for the environmental and other goods that they provide for us.

Ar 19 Hydref, lansiodd **Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Faterion yr Alban ymchwiliad i ddyfodol amaethyddiaeth yr Alban ar ôl Brexit.**

Ar 22 Hydref **Cyhoeddodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Gogledd Iwerddon ei adroddiad ar ymchwiliad Brexit ac Amaethyddiaeth.** Mae'n nodi y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddi, cyn Brexit, sut y bydd y polisi i ffermwyr a thyfwyr yn cael ei ddyfeisio yn absenoldeb gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon.

Ar 31 Hydref, dywedodd **George Eustice wrth Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Faterion yr Alban** (PDF, 210KB) y byddai taliadau i ffermwyr ar ôl Brexit yn llawer mwy hyblyg nag yr oedd cyfraith yr UE yn ei ganiatáu ar hyn o bryd.

Rhwng 23 Hydref a 1 Tachwedd, cynhaliodd Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin yr **eisteddiad cyntaf**, **yr ail, y trydydd**, **y pedwerydd**, **y pumed**, **y chweched**, **y seithfed** a'r **wythfed eisteddiad** ar y Bil Amaethyddiaeth lle atebodd George Eustice gwestiynau'r Pwyllgorau ar y bil.

## Ynni a Newid Hinsawdd:

Ar 26 Medi, **cynhaliodd Senedd yr Alban ddadl ar effaith ymadael â'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd.**

Ar 30 Hydref, ystyriodd Uwch-Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi **Reoliadau Trydan a Nwy (Pwerau i Wneud Is-ddeddfwriaeth (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**. Dywedodd yr Arglwydd Henley, Is-ysgrifennydd Seneddol yr Adran Busnes, Ynni a Diwydiant:

> the UK will work with Ireland and the EU in an effort to ensure that the Single Electricity Market (SEM) is maintained in any future scenario.

Ar 1 Tachwedd, ystyriodd Pwyllgor Deddfwriaeth Ddirprwyedig Tŷ'r Cyffredin **Reoliadau drafft Trydan a Nwy (Pwerau i Wneud Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018.** Dywedodd y Gweinidog dros Ynni a Thyfiant Glân, Claire Perry:

> number one focus is ensuring that we have a very smooth EU exit for our energy system, to maintain security of supply and low prices and to ensure that the price cap Bill applies.

## Pysgodfeydd

Ar 15 Medi, cyhoeddodd Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon Tŷ'r Cyffredin ei **adroddiad** ar effaith Brexit ar bysgodfeydd Gogledd Iwerddon.

Ar 10 Hydref, cynhaliodd Tŷ'r Arglwyddi **ddadl 'Brexit: EU Commission**' lle dywedodd y Gweinidog Gwladol (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd), yr Arglwydd Callanan:

> one of the great advantages of Brexit is that we will leave the common fisheries policy, one of the great environmental disasters of our time. We will be an independent coastal nation and we will determine our own fishing policy in future.

Ar 17 Hydref, holodd Is-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Ynni ac Amgylchedd yr UE Michael Gove am **barodrwydd Defra ar gyfer Brexit heb gytundeb**.

Ar 31 Hydref, lansiodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad ar rychwant, darpariaethau a phwerau arfaethedig Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig.**

## Coedwigaeth

Ar 31 Hydref, cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin **ddadl o dan y teitl 'Ymadael â'r UE: Y Fasnach Pren',** lle dywedodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, David Rutley:

> although the UK's exit from the EU may pose challenges for the forestry and timber-processing industries, we are working flat out to ensure that those issues are mitigated. We want to create more opportunities for the production of domestic timber.

## Gwarchod natur

Ar 6 Tachwedd, cyhoeddwyd **ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig** i adroddiad Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin **'The Government's 25 Year Plan for the Environment'**. Dywedodd Mary Creagh AS, Cadeirydd y Pwyllgor:

> it is deeply worrying that the response does not commit to replace the one third of EU environmental legislation that cannot be copied and pasted into UK law after Brexit.





# 9. Ffynonellau allweddol eraill

## Ansawdd aer

Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Brexit and air quality**, Mehefin 2018

## Amaethyddiaeth a bwyd

Y Ganolfan Newid Cyfansoddiadol, **The Agriculture Bill and the Implications for Devolution**, Hydref 2018

Greener UK, **Parliamentary briefing: Second reading of the Agriculture Bill**, Hydref 2018

Papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **The Agriculture Bill**, Hydref 2018

Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Beth mae Bil Amaethyddiaeth y DU yn ei olygu i Gymru?** Hydref 2018

Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Beth sydd mewn enw? Mae'r dyfodol yn aneglur ar ôl Brexit ar gyfer enwau bwyd a ddiogelir yng Nghymru**, Hydref 2018

NFU, **UK – a nation united by food**, Medi 2018

NFU Cymru, **Brexit Update**, Mehefin 2018

ResPublica, **Coming Home to Roost: The British Poultry Meat Industry After Brexit**, Medi 2018

SPICE, **Migrant labour in Scottish agriculture**, Hydref 2018

SPICE, **The UK Agriculture Bill**, Hydref 2018

SPICE, Blog gwadd – **Stopping the rot? The UK seasonal agricultural workers pilot scheme**, Hydref 2018

Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad yr RSA, **Our Common Ground**, Hydref 2018

UK in a Changing Europe, **Is the importance of agriculture being diminished in the face of Brexit?** Hydref 2018

UK in a Changing Europe, **The Agriculture Bill and the implications for devolution**, Hydref 2018

## Lles anifeiliaid

Pwyllgor Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, **Brexit: plant and animal biosecurity**, Hydref 2018

## Ynni a Newid Hinsawdd:

Greener UK, **Why the proposed new environmental body should enforce climate law**, Hydref 2018

Greener UK, **How Brexit will affect UK energy and climate policy**, Tachwedd 2018

Papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Future of the UK oil and gas industry**, Hydref 2018

## Pysgodfeydd

Rhwydwaith Academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **The Fisheries Bill: What does it tell us about post-Brexit fisheries policy?** Tachwedd 2018

Fishing News, **Fisheries Bill opens new era**, Hydref 2018

Papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Fisheries: Brexit Negotiations**, Hydref 2018

Cymdeithas Cadwraeth Forol, **Government's Post-Brexit plans for fisheries published**, Hydref 2018

Sefydliad Cenedlaethol y Pysgodfeydd, **Publication of the UK Fisheries Bill**, Hydref 2019

Sefydliad Economaidd Newydd, **Fishing after Brexit: voices from the coast** (fideo), Hydref 2018

SPICE, **Scientific advice around fishing quotas,** Hydref 2018

SPICE, **Preparing for a no-deal Brexit: Commercial Fishing**, Tachwedd 2018

UK in a Changing Europe, **Brexit and the future of fisheries policy in Northern Ireland**, Hydref 2018



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

## Gwarchod natur

Rhwydwaith Ymchwil Brexit a'r Amgylchedd, **Environmental policy in a devolved United Kingdom: Challenges and opportunities after Brexit**, Hydref 2018.

Greener UK, **Greener UK headlines for the content of a Westminster Environment Bill**, Hydref 2018

UK in a Changing Europe, **Northern Ireland: challenges and opportunities for post -Brexit environmental governance,** Hydref 2018

UK in a Changing Europe, **Scotland: challenges and opportunities for post-Brexit environmental governance,** Hydref 2018

UK in a Changing Europe, **Wales: challenges and opportunities for post Brexit environmental governance,** Hydref 2018

WWF, **Living Planet Report 2018**

## Gwastraff

Greener UK, **How Brexit will affect UK resource efficiency**, Tachwedd 2018

## Arall

Rhwydwaith Ymchwil Brexit a'r Amgylchedd, **Brexit and water law: Implications for the UK and Scotland,** Medi 2018

Rhwydwaith Ymchwil Brexit a'r Amgylchedd, **The limits of entrenchment: Parliamentary sovereignty and post-Brexit environmental policy,** Tachwedd 2018

Y Ganolfan ar Newid Cyfansoddiadol, **UK & Devolved Governments Need to Cooperate on Environment After Brexit**, Hydref 2018

Blog y Cynghrair Gwyrdd, **How not to deliver a green Brexit**, Hydref 2018

Greener UK, **Green benchmarks for Brexit**, Hydref 2018

Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewropeaidd, **Brexit and the environment: Avoiding deregulatory pressures,** Hydref 2018

Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol, **Blueprint for a new Environment Act**, Medi 2018

LexisNexis Purpose Built, **Upholding environmental standards if there's no Brexit deal**, Hydref 2018

SPICE, **Preparing for a no-deal Brexit: Environmental Standards**, Hydref 2018

UK in a Changing Europe, **Environment under threat without greater cooperation between devolved nations and UK government**, Hydref 2018

UK in a Changing Europe, **Environmental policy in a devolved United Kingdom**, Hydref 2018